**EOC-04-00(min)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Mai 2000 | |
| **Amser:** | 9.30 am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gwyr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Gareth Jones | Conwy |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | **Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor** | |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Mashuq Ally | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | **Swyddogion** | |
| | Mike Harper | Yr Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| Charles Willie | Yr Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod yn enwedig y siaradwyr, Stephen Redmond a Paul Hopkins o Is-adran Adnoddau Dynol yr NHS. Byddai eu cyflwyniad yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth archwilio'r trefniadau ar gyfer gwneud penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn dymuno gweld tryloywder a chydraddoldeb ym mhob rhan o'r broses.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i wirfoddoli i gymryd rhan mewn astudiaeth i wahaniaethu ar sail crefydd a gynhelir gan Brifysgol Derby. Cytunodd Janet Ryder i gynrychioli'r Pwyllgor.

1.3 Cytunwyd yn flaenorol y dylai'r Pwyllgor anfon cynrychiolydd i gynhadledd y Beijing Plus Five yn Efrog Newydd ym mis Mehefin. Fodd bynnag ers hynny mae Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau mai'r unig bobl y caniateir iddynt gymryd rhan mewn sesiynau llawn yn y digwyddiad oedd eu gweinidogion a'u swyddogion eu hunain. Roedd y Prif Ysgrifennydd yn ysgrifennu at y Farwnes Jay i leisio ei farn yn gryf y dylai cynrychiolaeth y DG lawn ystyried datganoli. Penderfynodd y Cadeirydd na fyddai'n mynychu'r digwyddiad nawr gan nad oedd llawer o reswm dros wario arian cyhoeddus os na allai gynrychioli barn Cymru yn gyhoeddus. Byddai'n siarad â'r person cyfatebol yn yr Alban i ganfod eu barn. Mynegodd yr aelodau eu siom am y sefyllfa.

1.4 Gwahoddodd y Cadeirydd Charles Willie i amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ar archwiliad cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd y bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r uwch reolwyr ar 2 Mehefin. Byddant hefyd yn cael eu gwahodd i gytuno ar gynigion ar gyfer gweithredu o fewn grwpiau amrywiol y Cynulliad yn seiliedig ar ganlyniadau'r archwiliad. Byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

1.5 Roedd y Cadeirydd wedi derbyn nifer o lythyrau gan ferched sy'n aelodau o undebau llafur yn gofyn am gael cymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgor. Cytunwyd i wahodd Pwyllgor Merched TUC Cymru i wneud cyflwyniad ar faterion cydraddoldeb yn un o gyfarfodydd y pwyllgor yn nhymor yr Hydref.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor a Rhaglen Waith ddrafft ar gyfer yr Uned Polisi Cydraddoldeb**
**Papurau: EOC-04-00(p.2) a EOC-04-00(p.3)**

2.1 Esboniodd y Cadeirydd bod yr Adroddiad Blynyddol drafft wedi gosod y sefyllfa waelodlin y byddai’r Pwyllgor yn gweithredu ohoni. Mewn trafodaeth, awgrymodd yr aelodau y gallai fod yn addas i bwysleisio cyfrifoldebau statudol unigryw y Cynulliad o ran cydraddoldeb. Awgrymwyd hefyd y dylid gwirio cyd-destun y cyfeiriadau i’r Cynulliad yn ofalus. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gyflwyno unrhyw bwyntiau drafftio eraill yn uniongyrchol i’r Clerc.

2.2 Trafodir yr adroddiad yn y Siambr ar 12 Gorffennaf. Cytunodd yr Aelodau ar gynnig y Cadeirydd ar gyfer gweithdrefn a fyddai’n arddangos ymagwedd cytûn y Pwyllgor:

- y Cadeirydd fyddai’n agor y drafodaeth;
- byddai aelod Plaid Cymru a Democrat Rhyddfrydol o’r Pwyllgor yn canolbwyntio ar agweddau penodol o waith y Pwyllgor; a,
- byddai aelod Ceidwadol yn cloi.

2.3 Gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau ar y rhaglen waith ddrafft ar gyfer yr Uned Polisi Cydraddoldeb (EOC-04-00(p.3) yn uniongyrchol at y Clerc.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Penodiadau Cyhoeddus yn NHS Cymru**
**Cyflwyniad - Stephen Redmond a Paul Hopkins, Is-adran Adnoddau Dynol yr NHS, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Papur: EOC-04-00(p.4)**

3.1 Agorodd y Cadeirydd yr eitem hon drwy nodi pryderon y Pwyllgor am y diffyg penodiadau cyhoeddus a ddelir gan bobl o gefndiroedd ethnig, pobl anabl a merched. Roedd y Pwyllgor wedi dangos pryder am yr holl broses o benodi i swyddi yn y gwasanaeth cyhoeddus o’r hysbysebion cychwynnol i’r cwestiynau a ofynnir mewn cyfweliadau a threfniadau ar gyfer cydnabyddiaeth. Y prif faterion i’w hystyried oedd i ba raddau yr oedd y penodedigion mewn gwirionedd yn cynrychioli’r cyhoedd yng Nghymru; tryloywder yn y broses benodi; a’r ystyriaeth a roddir i gyfle cyfartal wrth wneud dewisiadau. Gwahoddwyd Uned Penodiadau’r NHS i wneud cyflwyniad i’r Pwyllgor oherwydd ei bod yn delio gyda dros 600 o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn, gan gynnwys 5 awdurdod iechyd, 15 ymddiriedolaeth iechyd, 20 cyngor iechyd cymunedol a dros 70 o gyrff iechyd proffesiynol.

3.2 Dywedodd Stephen Redmond bod llawer o bryderon y Pwyllgor wedi’u nodi gan yr Uned eisoes a bod newidiadau ar y gweill. Cytunwyd ar y broses a amlinellir yn EOC-04-00(p.4) mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf ond roedd ymagwedd newydd yn cael ei datblygu nawr. Byddai hyn yn cynnwys arolwg cynhwysfawr o benodiadau cyhoeddus yn yr NHS a fyddai’n cwmpasu sut mae’r Cynulliad yn penodi, arolygu, hyfforddi, cynnal a chydnabod deiliaid swydd. Byddai ymgynghoriad eang ar yr ymagwedd newydd arfaethedig a darperir y ddogfen ymgynghorol ar gyfer sylwadau’r Pwyllgor. Byddai gweithgareddau newydd arfaethedig yn cynnwys:

- teilwra disgrifiadau a hysbysebion swydd ar gyfer swydd benodol yn hytrach na defnyddio templed safonol;

- ehangu lleoliad hysbysebion i gynnwys cyfryngau sy’n briodol i grwpiau lleiafrifol;
- trefnu dyddiau agored gyda chyfarwyddwyr anweithredol sy’n gwasanaethu fel y gallai ymgeiswyr posibl drafod materion gyda hwy yn anffurfiol;
- darparu cyfleoedd ar gyfer cysgodi neu fentora;
- egluro bod penodiadau yn agored i bawb;
- cynllunio ac amserlennu ymarferion penodi yn gaeth;
- ailgynllunio a symleiddio ffurflenni cais a pheidio â gwahodd CVs fel rhan o’r broses gwneud cais;
- cynnwys aseswyr annibynnol yn y broses o lunio rhestr fer a chyfweld;
- darparu hyfforddiant cyfle cyfartal ar gyfer yr holl rai hynny sy’n ymwneud â’r broses o benodi (yn cynnwys Aelodau’r Cynulliad fydd yn ymwneud â’r dewis terfynol); a
- galluogi deiliaid swydd i ail-geisio ar gyfer eu swydd mewn cystadleuaeth agored yn hytrach na chael eu hailbenodi.

3. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Redmond am ei gyflwyniad a hysbysodd yr aelodau bod y Cabinet wedi gofyn i’r Pwyllgor wneud yr argymhellion terfynol ar weithdrefnau i’w mabwysiadu ar gyfer yr holl broses penodiadau cyhoeddus gan gynnwys yr NHS. Dywedodd Kate Bennett y byddai’r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn falch iawn o gael eu cynnwys yn yr arolwg. Cynigiodd y dylai’r Uned ystyried diwrnodau hyfforddi cyffredinol ar gyfer y rhai hynny a allai fod am wneud cais ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn y dyfodol; a gallai archwilio pam nad oedd grwpiau lleiafrifol yn gwneud cais neu’n mynd drwy’r broses. Hefyd cynigiodd Mashuq Ally gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a chynigiodd hwyrach yr hoffai’r Uned ystyried i ba raddau yr oedd y gweithdrefnau cyfweld yn ystyried gwahaniaethau diwylliannol. Roedd llawer o sefydliadau wedi nodi nad oedd dulliau cyfweld traddodiadol yn addas ar gyfer rhai lleiafrifoedd ethnig.

3.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- nid oedd canran y penodiadau a ddaliwyd gan aelodau o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn adlewyrchu eu cynrychiolaeth ym mhoblogaeth Cymru;
- gellir llunio ‘rhestr gymeradwy’ o unigolion parod o leiafrifoedd ethnig i’r cyrff sy’n penodi dynnu arni;
- dylai’r NHS fod yn broactif wrth gwrdd â grwpiau lleiafrifoedd ac annog unigolion i gyflwyno eu hunain. Gallai Aelodau’r Cynulliad gynorthwyo wrth nodi grwpiau priodol;
- dylid gosod targedau i wella nifer y penodiadau o grwpiau lleiafrifol. Dylai’r rhain adlewyrchu lefelau’r swyddi ac nid y canrannau a gynrychiolir yn gyffredinol yn unig;
- dymunoldeb codi lefelau cydnabyddiaeth yn gyffredinol;
- posibilrwydd cymhellion eraill i annog cymryd rhan e.e. ad-dalu cyflogwyr ar gyfer yr amser a ‘gollwyd’ gan eu cyflogeion, cyfleusterau gofal plant neu ad-dalu treuliau ar gyfer darparu gofal;
- darparu hyfforddiant i ymgeiswyr nad ydynt yn gallu cyflawni meini prawf swyddi penodol;
- rhoi ‘stamp Cymraeg’ ar swyddi; a
- p’un a ddylid atal deiliaid swyddi rhag dal mwy nag un swydd ar y tro.

Dywedodd Stephen Redmond bod rhai o'r materion hyn yn cael eu trafod eisoes. Byddai'n ystyried yr holl bwyntiau a godwyd yn y cynigion a fyddai'n dod i'r Pwyllgor rhywbryd yn y dyfodol.

3.5 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid llunio drafft cyntaf o adroddiad y Pwyllgor ar benodiadau cyhoeddus yn ystod gwyliau'r Haf fel y gallai'r Pwyllgor ei ystyried yn nhymor yr Hydref. Gwahoddodd swyddogion ac ymgynghorwyr i ystyried y meysydd allweddol y dylid eu cwmpasu yn yr adroddiad ac i ddarparu crynodeb ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gwahoddwyd yr ymgynghorwyr i roi eu syniadau ar dargedau a chymryd ymagwedd broactif.

3.6 Gwahoddwyd Stephen Redmond i gyflwyno papur i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar Strategaeth Adnoddau Dynol yr NHS a oedd yn cael ei lansio ar 23 Mehefin. Yn dilyn hyn, cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda barn y Pwyllgor ar y strategaeth.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence**
**Eitem Lafar**

4.1 Dywedodd yr Aelodau nad oeddent yn fodlon â'r cynnydd a wnaed ar y mater hwn. Byddai person a gâi ei secondio yn gweithio ar faterion ehangach yn gysylltiedig â chyfiawnder troseddol yn dechrau gyda'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf. Roedd yr is-grwp o aelodau a benodwyd gan y Pwyllgor ei hun wedi cwrdd am y tro cyntaf ym mis Chwefror ond ni fyddai'r gweithgor o swyddogion yn cwrdd tan ddiwedd mis Mehefin. Byddai'r is-grwp o aelodau yn cwrdd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 3 Gorffennaf i drafod canlyniad y cyfarfod hwn. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid cynhyrchu adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried mewn cyfarfod ychwanegol byr ar 11 Gorffennaf cyn i'r Cynulliad dorri ar gyfer gwyliau'r Haf. Cytunwyd y byddai is-grwp yr Aelodau yn cynhyrchu nodyn canllaw i swyddogion ar y gobeithion mewn perthynas â'r cwricwlwm.

4.2 Pan fynychodd yr Ysgrifennydd Cynulliad Addysg a Phlant y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ym mis Chwefror, gwnaed yn glir nad oedd yn dderbyniol bod cydraddoldeb yn cael ei godi mewn cyd-destun Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn unig. Fodd bynnag, roedd ateb i Gwestiwn diweddar yn y Cynulliad yn awgrymu bod cydraddoldeb yn dal i gael ei ystyried fel mater ABCh. Roed yr Aelodau yn bryderus iawn ynghylch yr ymateb hwn.

4.3 Mewn trafodaeth gwnaed y pwyntiau canlynol:

- nid oedd materion diwylliannol a chenedl yn cael eu trin mewn digon o ddyfnder o fewn ABCh felly roedd angen i faterion cydraddoldeb gael eu codi mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.
- mae angen hyfforddiant arbennig ar athrawon ar sut i wneud y gorau o'r cyfeiriadau at gydraddoldeb sydd yn bodoli
- roedd hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion hefyd yn bwysig iawn;
- nid yw cynlluniau strategol awdurdodau addysg lleol, sy'n nodi'r berthynas rhyngddynt eu

hunain ag ysgolion, yn rhoi sylw digonol i faterion cydraddoldeb. Roedd angen i’r Cynulliad ddarparu arweiniad cryf ar hyn a chaiff y mater ei godi yn y Pwyllgor Addysg Cyn-16; a,

- nid oedd yr hyfforddiant cyfle cyfartal ar gyfer AC wedi digwydd eto ac roedd yn hanfodol ar gyfer yr Aelodau hynny sy’n gysylltiedig â phaneli penodiadau cyhoeddus.

4.5 Mewn ymateb i’r pwynt olaf, esboniodd Charles Willie bod y cylch gorchwyl ar gyfer yr hyfforddiant hwn wedi’i gynllunio a’i fod bellach wedi mynd allan i dendr. Cynigiodd y Cadeirydd godi’r mater o bresenoldeb mewn hyfforddiant o’r fath gyda’r Llywydd. Nododd yr Aelodau nad oedd yn bosibl gwneud hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol ond gallai’r Pwyllgor fod yn gadarn wrth argymell ei fod yn cael ei gynnal a gellid pwysleisio hyn yn ystod trafodaeth y Sesiwn Lawn ar gyfle cyfartal.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Adeiladu Cymru Well Gyda’n Gilydd**
**Papurau: EOC-04-00(p.5)**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch iawn o wahodd y Pwyllgorau i drafod cynlluniau ar gyfer cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2000/2001. Gofynnodd i aelodau anfon unrhyw sylwadau ar y papurau a ddosbarthwyd yn uniongyrchol i’r Clerc. Awgrymwyd hwyrach yr hoffai aelodau ystyried pa mor dda yr oedd gwaith presennol y Cynulliad yn cwrdd â’i amcanion a’r ffordd fwyaf effeithiol i ymrwymo adnoddau.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-03-00(min)**

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

6.2 Nododd y Cadeirydd bod sesiwn friffio lwyddiannus iawn wedi’i chynnal gyda’r Is-adran Rheoli Personél ar y weithdrefn werthuso flynyddol ar gyfer staff yn y Cynulliad. Un mater na chyfeiriwyd ato’n benodol oedd sut y cyflwynir adroddiadau ar ferched sy’n gweithio’n rhan amser a sut y cânt eu monitro wrth iddynt ddatblygu drwy’r sefydliad. Gofynnodd i’r Ysgrifenyddiaeth drefnu bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu i’r Pwyllgor. Roedd sesiwn friffio arall yn cael ei threfnu gyda’r Uned Gaffael.

6.3 Er bod papur ar yr ymarfer Gwrando ar Ferched wedi’i ddarparu er gwybodaeth yn y cyfarfod hwn, gwahoddir Margaret Jones o’r Uned Polisi Cydraddoldeb i gyflwyno adroddiad arno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Gallai’r Pwyllgor hefyd wahodd Cynghrair Cenedlaethol Merched Cymru i roi cyflwyniad byr a chyfrannu at y drafodaeth. Nododd y Cadeirydd bod Julie Mellor, Cadeirydd y Comisiwn Cyfle Cyfartal, yn gobeithio gallu mynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn yr hydref. Byddai hyn yn gweithredu fel cyfle i drafod meysydd nad ydynt wedi’u datganoli i’r Cynulliad.

6.4 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau bod y Cynulliad wedi cefnogi lansiad diweddar y Comisiwn Hawliau Anabledd yng Nghymru. Byddai’n adrodd yn ôl ar hyn yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd yr

aelodau ar ei chynnig y dylai’r Pwyllgor gynnwys eitem yn ei flaen raglen waith ar y berthynas rhwng y Cynulliad a’r cyrff cydraddoldeb cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar ei rôl wrth benodi eu cynrychiolwyr yng Nghymru. Gallai’r eitem hon hefyd gwmpasu trefniadau protocol gyda’r Adrannau priodol yn Whitehall.

6.5 Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.